# Prawf Darllen Cymraeg Safonedig
# Consortiwm Canolbarth y De



Prifysgol Caerdydd
Cardiff University

Ysgol y Gymraeg
School of Welsh

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

**Grymuso ysgolion i wella deilliannau i bob dysgwr**

**Empowering schools to improve outcomes for all learners**

# Prawf Darllen Consortiwm Canolbarth y De

## Fersiwn 1.0

Dr Jonathan Morris (Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd)

Dr Rosanna Stenner (Ysgol Seicoleg, Prifysgol Caerdydd)

Dr Geraint Palmer (Ysgol Mathemateg, Prifysgol Caerdydd)

Dr Dylan Foster Evans (Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd)

**Hoffem ddiolch yn fawr i'r ysgolion canlynol am beilota'r prawf:**

Ysgol Bro Morgannwg 3-19, Bro Morgannwg
Ysgol Cynwyd Sant, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Garth Olwg 3-19, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Llanhari 3-19, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Pencae, Caerdydd
Ysgol Santes Tudful, Merthyr Tudful
Ysgol Treganna, Caerdydd

**Consortiwm Canolbarth y De:** Chris Newcombe, Prif Bartner Gwella.

Christopher.Newcombe@cscjes.org.uk

Os hoffech gymryd rhan mewn unrhyw brosesau safoni'r prawf yn y dyfodol, cysylltwch â Dr Jonathan Morris – MorrisJ17@caerdydd.ac.uk

# Cynnwys


*Cyflwyniad* .......... *4*

*Methodoleg* .......... *4*

**1.1 Llunio'r brawddegau** .......... **4**

1.1.1 Cymhlethdod brawddegau .......... 5

1.1.2 Cymhlethdod gramadegol .......... 5

1.1.3 Ffonoleg y Gymraeg (seiniau a sillafau) .......... 5

1.1.4 Geirfa .......... 6

1.1.5 Amrywio gramadegol a geirfaol .......... 6

**1.2 Peilota'r prawf** .......... **6**

**1.3 Safoni'r prawf** .......... **6**

1.3.1 Gwahaniaethau rhwng y ddwy ffurflen .......... 8

1.3.2 Defnyddio sgorau safonedig .......... 8

**1.4 Cyfarwyddiadau** .......... **9**

1.4.1 Gosod y prawf .......... 9

1.4.2 Anawsterau .......... 9

1.4.3 Sgorio .......... 9

1.4.4 Cymharu â sgorau safonedig .......... 9

1.4.5 Monitro cynnydd .......... 10

***Atodiad 1: Enghreifftiau o nodweddion ieithyddol ffynonellau darllen*** .......... ***11***

***Atodiad 2: Sgorau safonedig fesul blwyddyn ysgol.*** .......... ***14***

***Atodiad 3: Sgorau Safonol fesul oedran a blwyddyn ysgol.*** .......... ***19***

***Atodiad 4: Sgorau safonedig fesul blwyddyn ysgol ac iaith yr aelwyd.*** .......... ***24***

## Cyflwyniad

Nod y prosiect hwn oedd creu prawf darllen hwylus ar gyfer monitro **cywirdeb darllen** plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Comisiynwyd y prawf gan Gonsortiwm Canolbarth y De ac fe'i lluniwyd gan dîm o ymchwilwyr o Brifysgol Caerdydd.

Mae Prawf Darllen Consortiwm Canolbarth y De yn cynnwys dwy ffurflen. Mae pob ffurflen yn cynnwys 17 brawddeg. Mae modd i ymarferwr ddefnyddio'r ddwy ffurflen ar adegau gwahanol er mwyn asesu cynnydd unigolion a'u cymharu â sgorau safonedig. Mae'r sgorau safonedig yn seiliedig ar sgorau 760 o blant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Ne Ddwyrain Cymru.

Mae'r prawf yn addas i blant o flynyddoedd 1 i 11 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae modd cymharu canlyniadau sgorau disgyblion â sgorau safonedig.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth ynghylch methodoleg llunio'r prawf ynghyd â chyfarwyddiadau ar ei ddefnyddio.

## Methodoleg

### 1.1 Llunio'r brawddegau

Dadansoddwyd 30 o lyfrau a deunyddiau darllen (e.e. profion darllen) i blant rhwng 3 a 16 mlwydd oed. Roedd y sampl yn cynnwys y ffynonellau canlynol:

- Llyfrau poblogaidd (e.e. Sali Mali, Cyfres Rapsgaliwn, Cyfres Copa)
- Llyfrau sy'n rhan o gynlluniau darllen (Coeden Ddarllen Rhydychen; Dewch i Ddarllen)
- Profion Darllen Cenedlaethol
- Deunyddiau asesu enghreifftiol TGAU Cymraeg Iaith
- Cerddi ar fanyleb TGAU Llenyddiaeth (e.e. 'Etifeddiaeth', Gerallt Lloyd Owen).

Yn y dadansoddiad, cymharwyd cymhlethdod brawddegau, cymhlethdod gramadegol, seiniau a nodweddion ffonolegol, geirfa, ac amrywio tafodieithol. Gan ystyried y gwahaniaethau rhwng ffynonellau, penderfynwyd cynnwys chwe darn yn y dadansoddiad terfynol (gweler Atodiad 1).

### 1.1.1 Cymhlethdod brawddegau

Cyflwynwyd brawddegau syml neu ddibeniadol (e.e. ‘Mae’r llyfr yn dda’) ym mhob ffynhonnell. Cafwyd ambell is-gymal syml o flwyddyn dau ymlaen ynghyd â’r patrwm ‘sydd’.

Roedd brawddegau hirach yn nodweddiadol o flwyddyn pedwar ymlaen. Roedd tuedd i ddefnyddio brawddegau cyfansawdd ynghyd ag is-gymalau a’r ffurf gypladol ‘ydy’.

Defnyddiwyd nifer o frawddegau cymhleth o flwyddyn saith ymlaen gan gynnwys brawddegau cyfansawdd, is-gymalau adferfol, a chymalau perthynol.

### 1.1.2 Cymhlethdod gramadegol

Cyflwynwyd berfau cwmpasog yn y deunyddiau i blant iau (er ambell eithriad) yn y presennol a’r amherffaith. Cafwyd nifer o enghreifftiau o orchmynion yn ogystal â phatrymau penodol megis ‘(mae’n) rhaid’ a ‘pan fydd’.

Roedd y goddefol ‘cael’, yr amherffaith, y gorberffaith ac enghreifftiau o bob treiglad yn bresennol o flwyddyn pedwar ymlaen.

Gwelwyd o flwyddyn saith fwy o amrywio gan y cyflwynwyd ffurfiau cryno ar ferfau (gan gynnwys yr amherffaith) a chyweiriau. Roedd dyfyniadau yn cynnwys geiriau tafodieithol yn ogystal â nodweddion llai ffurfiol megis ‘Dwi’n’.

### 1.1.3 Ffonoleg y Gymraeg (seiniau a sillafau)

Nid oes llawer o dystiolaeth bod ffonoleg yn ystyriaeth gan y defnyddir seiniau anos a sillafau cymhleth ym mhob darn. Gwelwyd rhagor o glystyrau ar lefelau uwch.

### 1.1.4 Geirfa

O flwyddyn dau, defnyddiwyd enwau cyffredin, berfenwau a gorchmynion cyffredin. Cyflwynwyd ansoddeiriau ar ôl enwau a chlystyrau anos (e.e. 'perchennog' o flwyddyn pedwar ymlaen.

Roedd defnydd eang o ansoddeiriau, adferfau a chlystyrau cymhleth yn nodweddiadol o ddeunyddiau o flwyddyn saith ymlaen. Defnyddiwyd cysyniadau haniaethol yn gyson.

### 1.1.5 Amrywio gramadegol a geirfaol

Gwelwyd cywair lled ffurfiol mewn profion darllen:

- Defnyddiwyd rhagenwau blaen yn unig (e.e. 'ei chi' yn hytrach nag 'ei chi hi').
- Osgowyd rhagenwau ar ôl berfau (e.e. 'Gwelodd gar').

Roedd y rhagenw perthynol, geirynnau rhagferfol ('fe') a'r amhersonol yn nodweddiadol o gyweiriau lled ffurfiol ar lefelau uwch. O flwyddyn 10 ymlaen, defnyddiwyd y ffurfiau hyn yn gyson.

Ar y cyfan, fe osgowyd ffurfiau amlwg sy'n amrywio rhwng tafodieithoedd megis 'ef/fo' ac 'Mae gen i/Mae gyda fi'. Er hyn, roedd deunyddiau lefelau uwch yn cynnwys ffurfiau tafodieithol.

Fe ddefnyddiwyd y ffurf 'ydy' yn hytrach nag 'yw'.

## 1.2 Peilota'r prawf

Casglwyd y data peilot yn ystod 2020–2021. Cymerodd cyfanswm o 137 o blant 4–17 mlwydd oed ran yn yr astudiaeth beilot. Gwahoddwyd athrawon i nodi unrhyw anawsterau a gododd yn ystod y prawf. Newidiwyd geiriau a achosodd broblemau cyson.

## 1.3 Safoni'r prawf

Cymerodd pum ysgol cyfrwng Cymraeg ran yn y broses o safoni'r prawf. Fel rhan o'r broses hon, cwblhaodd 760 o ddisgyblion y ddwy ffurflen mewn cyfnod o bythefnos.

Dengys Tabl 1 nifer y disgyblion yn y sampl fesul rhywedd fel y'i hadroddwyd gan athrawon.

| | Blwyddyn Ysgol | | | | | | | | | | | *Cyfanswm* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** | |
| **Bechgyn** | 30 | 36 | 36 | 46 | 15 | 27 | 38 | 41 | 33 | 24 | 28 | *354* |
| **Merched** | 33 | 42 | 38 | 55 | 33 | 37 | 41 | 53 | 32 | 21 | 21 | *406* |
| ***Cyfanswm*** | *63* | *78* | *74* | *101* | *48* | *64* | *79* | *94* | *65* | *45* | *49* | *760* |

*Tabl 1: Nifer y disgyblion ym mhob blwyddyn ysgol fesul rhywedd.*

Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng sgorau bechgyn a merched ($p$ = 0.947).

Gan ystyried y boblogaeth dan sylw yn y sampl (hynny yw, disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Ne Ddwyrain Cymru), roedd lleiafrif o ddisgyblion yn dod o deuluoedd lle'r oedd pob rhiant yn siarad Cymraeg. Dengys Tabl 2 nifer y disgyblion fesul iaith yr aelwyd (Cymraeg/Arall).

| | Blwyddyn Ysgol | | | | | | | | | | | *Cyfanswm* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** | |
| **Cymraeg** | 6 | 8 | 12 | 35 | 4 | 6 | 2 | 10 | 8 | 2 | 3 | 96 |
| **Arall** | 57 | 70 | 62 | 66 | 44 | 58 | 77 | 84 | 57 | 43 | 46 | 664 |
| ***Cyfanswm*** | 63 | 78 | 74 | 101 | 48 | 64 | 79 | 94 | 65 | 45 | 49 | 760 |


*Tabl 2: Nifer y disgyblion ym mhob blwyddyn fesul iaith yr aelwyd.*

Nid oedd gwahaniaeth rhwng sgorau'r disgyblion a oedd yn siarad Saesneg yn unig a'r disgyblion a oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg ar yr aelwyd. Dyma'r grŵp 'Arall' uchod.

Roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng disgyblion o gartrefi Cymraeg a'r disgyblion o gefndiroedd ieithyddol eraill o flwyddyn 1 i 4. Diflannodd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol o flwyddyn 5 ymlaen.

### 1.3.1 Gwahaniaethau rhwng y ddwy ffurflen

Dengys Ffigur 1 blot gwasgariad sy'n awgrymu bod disgyblion yn debygol o sgorio'n debyg ar Set A a Set B. Cefnoga'r histogram y canlyniad hwn. Dangosodd canlyniadau profion ystadegol nad oedd effaith unrhyw wahaniaethau rhwng Ffurflen A a Ffurflen B yn bwysig ($d$ = 0.04) ac felly mae modd cymharu canlyniadau'r ddwy set.




*Ffigur 1: Dosraniad y gwahaniaethau rhwng sgorau ffurflenni A a B.*

### 1.3.2 Defnyddio sgorau safonedig

Mae'r sgorau safonedig ar gael yn Atodiadau 2 i 4. Dengys Tabl 3 ddehongliad ansoddol y sgorau safonol:

*Tabl 3: Dehongliad ansoddol sgorau safonedig.*

| Sgôr safonedig | Dehongliad ansoddol |
|---|---|
| **130 neu drosodd** | Ardderchog |
| **116–130** | Da iawn |
| **85–115** | Yn debyg i'r sgôr ganolig |
| **70–84** | Llai na'r sgôr ganolig |
| **Llai na 69** | Gwan |

### 1.4 Cyfarwyddiadau

#### 1.4.1 Gosod y prawf

- Dewiswch naill ai Ffurflen A neu Ffurflen B.
- Gofynnir i'r disgyblion ddarllen y brawddegau ar goedd. Dylai pob disgybl ddechrau ar y frawddeg gyntaf.
- Wrth i'r disgybl ddarllen y brawddegau, dylech gylchu'r geiriau y gwneir camgymeriad arnynt. **Asesir geiriau mewn print trwm yn unig.**
- Stopiwch y prawf ar ôl y chweched anhawster (neu ynghynt os nad oes modd i'r disgybl barhau). Nodwch rif y gair asesedig diwethaf a gafodd y disgybl yn gywir fel sgôr.

#### 1.4.2 Anawsterau

- Peidiwch â nodi anhawster os yw'r disgybl wedi ei gywiro ei hun wrth ddarllen.
- Gwylier rhag cynnwys ffurfiau tafodieithol fel anawsterau (e.e. drwy'r dydd > drw'r dydd; chwarae > chware).
- Mae camdreiglo'n cyfrif fel anhawster gan fod y prawf yn asesu cywirdeb darllen.

#### 1.4.3 Sgorio

- Asesir geiriau mewn print trwm yn unig. Peidiwch ag ystyried geiriau nad ydynt mewn print trwm.
- Rhowch 0 (Sero) fel sgôr os na fydd y disgybl yn llwyddo i ddarllen o gwbl.
- Stopiwch y prawf os na fydd y disgybl yn gallu darllen ymhellach. Nodwch rif y gair asesedig diwethaf a gafodd y disgybl yn gywir fel sgôr.
- Fel arall, stopiwch y prawf ar ôl y chweched anhawster gan nodi rhif y gair fel sgôr.
- Os bydd y disgybl yn llwyddo i gwblhau'r prawf heb chwe anhawster, rhowch sgôr o 104.

#### 1.4.4 Cymharu â sgorau safonedig

Mae modd i ymarferwyr gymharu sgôr y disgybl â'r sgorau safonedig canlynol:

- Blwyddyn ysgol (Blynyddoedd 1 i 11, gweler Atodiad 2)
- Blwyddyn ysgol ac oedran (Blynyddoedd 1 i 9, gweler Atodiad 3)
- Blwyddyn ysgol ac iaith ar yr aelwyd (Blynyddoedd 1 i 4, gweler Atodiad 4)

#### 1.4.5 Monitro cynnydd

Awgrymir bod ymarferwyr yn defnyddio’r ffurflen na ddefnyddiwyd yn y prawf cyntaf wrth osod prawf arall mewn cyfnod o chwe mis.

### Atodiad 1: Enghreifftiau o nodweddion ieithyddol ffynonellau darllen

| Ffynhonnell | Oedran | Strwythur brawddegau | Patrymau gramadegol / Cywair | Ffonoleg | Geirfa |
|---|---|---|---|---|---|
| **Savill, Ifa ac Evans, Gary. 2013. *Sbio*. Llandysul: Gomer** | Blynyddoedd 0–1 | • Syml | • Ble mae?<br>• Dy<br>• Rhagenwau: nhw/fe | • Nid oes seiniau sy'n anos eu caffael. | • Caffi |
| **Hunt, Roderick a Wright, Joe. 1998. *Anorac Jac* (Coeden Ddarllen Rhydychen). Oxford University Press** | Blynyddoedd 1–2 | • Syml | • Berfau cwmpasog<br>• Amherffaith 'roedd'<br>• Rhagenwau blaen ('ei mam')<br>• Anadliad caled 'h' (ei hanorac)<br>• Berfau cryno ('Rhoddodd')<br>• Tynnu oddi ar<br>• Mae'n ddrwg gen i | • <ch><br>• Sillafau syml gan amlaf.<br>• Peth defnydd o sillafau cymhleth ('gwisgodd') | • Anorac<br>• Geneth |
| **Profion Darllen Cenedlaethol** | Blynyddoedd 2–3 | • Syml/Dibeniadol<br>• Ambell frawddeg gymhleth (is-gymalau)<br>• Is-gymal ansoddeiriol 'sydd'. | • Berfau cwmpasog ar y cyfan (e.e. 'Rydyn ni'),<br>• Un ferf gryno ('Gallwch chi').<br>• Gorchmynion<br>• Dyma<br>• Ôl-gyfeirio ('Dyma beth sydd ei angen i wneud tŵr bwydo adar')<br>• Does dim<br>• Dydy'r...ddim<br>• Pan fydd<br>• Gan ('gan ddefnyddio...')<br>• Drwy ('drwy roi bwyd allan')<br>• Mae'n rhaid<br>• Gyda / â<br>• Treigladau meddal<br>• Dim rhediad arddodiaid | • Defnydd llawn o seiniau anos (e.e. <ll>, <ch> a deuseiniaid).<br>• Sillafau syml gan amlaf.<br>• Peth defnydd o sillafau cymhleth (e.e. gwyllt, plastig, cortyn, siswrn) | • Adar<br>• Tŵr bwydo<br>• Cortyn<br>• Hadau<br>• Pren<br>• Defnyddio<br>• Helpu<br>• Torri<br>• Llenwi |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Profion Darllen Cenedlaethol** | Blynyddoedd 4–6 | • Syml/Diebeniadol<br>• Cyfansawdd ('ac felly')<br>• Ambell frawddeg gymhleth (is-gymalau)<br>• Is-gymal ansoddeiriol 'sydd'.<br>• Cypladol ('Ci John Fletcher…ydy Tammy') | • Berfau cwmpasog ar y cyfan<br>• Goddefol ('mae rhai cŵn yn cael eu hyfforddi')<br>• Os bydd<br>• Amherffaith (roedd…)<br>• Gorberffaith (roedd….wedi)<br>• Gorchmynion<br>• Ôl-gyfeirio ('Dy'r rhif mae'n rhaid ei ffonio')<br>• Treigladau meddal<br>• Un enghraifft o'r treiglad trwynol ('ei thrwyn').<br>• Un enghraifft o'r treiglad llaes ('A pherchennog balch iawn ydy John')<br>• Ymadroddion 'ar' ('Mae clefyd siwgr ar John').<br>• Rhaid<br>• Dim rhediad arddodiaid<br>• Ambell ragenw blaen heb y rhagenw ategol (ffurfiol: 'ei thrwyn'). | • Defnydd llawn o seiniau anos (e.e. <ll>, <ch> a deuseiniaid).<br>• Sillafau syml gan amlaf.<br>• Peth defnydd o sillafau cymhleth. | • Rhai<br>• Niferoedd ('£50,000')<br>• Ansoddeiriau ar ôl enwau (gwobr arbennig)<br>• Ymadroddion arddodiadol ('deffro yn y bore, wrth ochr')<br>• Cyffwrdd<br>• Perchennog<br>• Siwgr<br>• Arbennig<br>• Ymwelydd<br>• Cysyniadau haniaethol ('Synnwyr Cyfeiriad') |
| **Profion Darllen Cenedlaethol** | Blynyddoedd 7–9 | • Syml/Dibeniadol<br>• Cyfansawdd ('ac felly')<br>• Ambell frawddeg gymhleth (is-gymalau)<br>• Is-gymal ansoddeiriol 'sydd'.<br>• Rhagenwau perthynol ('a glywai')<br>• Is-gymalau adferfol ('oherwydd bod')<br>• Syml | • Berfau cwmpasog a chryno<br>• Cymysgu rhwng cyweiriau (dyfyniadau)<br>• Ffurfiau ansafonol/tafodieithol ('genethod')<br>• Amherffaith ('Eisteddai')<br>• Anadliad caled 'h' (ei hatgoffa)<br>• Rhagenw cysylltiol 'hithau' | • Defnydd llawn o seiniau anos (e.e. <ll>, <ch> a deuseiniaid).<br>• Sillafau syml gan amlaf.<br>• Peth defnydd o sillafau cymhleth. | • Defnydd eang o ansoddeiriau ac adferfau.<br>• Cris-croes<br>• Derw<br>• Brethyn<br>• Deheuig |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Cymalau enwol (‘Sylwodd fod’) | • Meddiant ‘dyru pres y drysau’<br>• Yn dal i<br>• Defnydd ‘gan’ (Prysurodd Miss Humphreys heibio a llond braich o lyfrau ganddi)<br>• Cymalau adferfol ‘i’ (wrth iddi gerdded)<br>• Arddodiaid (‘gerllaw’)<br>• Ansoddeiriau benywaidd ‘cot wen’<br>• Nid oedd…<br>• Defnydd ‘dan’ (‘dan wenu’<br>• Rhediad arddodiaid (‘ohonynyt’)<br>• Union (‘yn yr union adeilad hwn’)<br>• Treigladau meddal, llaes, trwynol | | |
| **TGAU CBAC Cymraeg Iaith (Deunyddiau Asesu Enghreifftiol)** | Blynyddoedd 10–11 | • Nodweddion a nodir uchod | • Nodweddion a nodir uchod.<br>• Defnydd o’r amhersonol gorffennol.<br>• Negyddol ‘ni’<br>• Geirynnau rhagferfol ‘Fi/Mi’<br>• Cystrawen hyblyg (‘Ddwy awr yn ddiweddarach cafodd’)<br>• Amrywio cywair | • Defnydd llawn o seiniau anos (e.e. <ll>, <ch> a deuseiniaid).<br>• Sillafau syml gan amlaf.<br>• Peth defnydd o sillafau cymhleth. | • Anesmwytho<br>• Yng ngolau matsien<br>• Anerol<br>• Mo<br>• Anwylaf |

Atodiad 2: Sgorau safonedig fesul blwyddyn ysgol.

| Sgôr | Bl. 1 | Bl. 2 | Bl. 3 | Bl. 4 | Bl. 5 | Bl. 6 | Bl. 7 | Bl. 8 | Bl. 9 | Bl. 10 | Bl. 11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 90 | 78 | 72 | | | | | | | | |
| 1 | 91 | 79 | 73 | | | | | | | | |
| 2 | 92 | 79 | 74 | | | | | | | | |
| 3 | 93 | 80 | 74 | | | | | | | | |
| 4 | 94 | 81 | 75 | 65 | | | | | | | |
| 5 | 95 | 81 | 75 | 66 | | | | | | | |
| 6 | 96 | 82 | 76 | 66 | | | | | | | |
| 7 | 96 | 82 | 76 | 67 | | | | | | | |
| 8 | 97 | 83 | 77 | 67 | | | | | | | |
| 9 | 98 | 83 | 78 | 68 | | | | | | | |
| 10 | 99 | 84 | 78 | 69 | | | | | | | |
| 11 | 100 | 85 | 79 | 69 | | | | | | | |
| 12 | 101 | 85 | 79 | 70 | | | | | | | |
| 13 | 102 | 86 | 80 | 70 | | | | | | | |
| 14 | 103 | 86 | 80 | 71 | | | | | | | |
| 15 | 103 | 87 | 81 | 71 | | | | | | | |
| 16 | 104 | 88 | 82 | 72 | | | | | | | |
| 17 | 105 | 88 | 82 | 73 | | | | | | | |
| 18 | 106 | 89 | 83 | 73 | | | | | | | |
| 19 | 107 | 89 | 83 | 74 | | | | | | | |
| 20 | 108 | 90 | 84 | 74 | | | | | | | |
| 21 | 109 | 90 | 84 | 75 | | | | | | | |
| 22 | 110 | 91 | 85 | 76 | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | 111 | 92 | 86 | 76 | | | | | | | |
| 24 | 111 | 92 | 86 | 77 | | | | | | | |
| 25 | 112 | 93 | 87 | 77 | 66 | | | | | | |
| 26 | 113 | 93 | 87 | 78 | 66 | | | | | | |
| 27 | 114 | 94 | 88 | 78 | 67 | | | | | | |
| 28 | 115 | 94 | 88 | 79 | 68 | | 65 | | | | |
| 29 | 116 | 95 | 89 | 80 | 69 | | 66 | | | | |
| 30 | 117 | 96 | 90 | 80 | 70 | | 67 | | | | |
| 31 | 118 | 96 | 90 | 81 | 70 | | 68 | | | | |
| 32 | 118 | 97 | 91 | 81 | 71 | | 69 | | | | |
| 33 | 119 | 97 | 91 | 82 | 72 | | 70 | | | | |
| 34 | 120 | 98 | 92 | 82 | 73 | | 71 | | | | |
| 35 | 121 | 98 | 92 | 83 | 74 | | 72 | | | | |
| 36 | 122 | 99 | 93 | 84 | 74 | | 73 | | | | |
| 37 | 123 | 100 | 93 | 84 | 75 | | 74 | | | | |
| 38 | 124 | 100 | 94 | 85 | 76 | | 75 | | | | |
| 39 | 125 | 101 | 95 | 85 | 77 | | 75 | | | | |
| 40 | 126 | 101 | 95 | 86 | 78 | | 76 | 65 | | | |
| 41 | 126 | 102 | 96 | 86 | 78 | | 77 | 66 | | | |
| 42 | 127 | 102 | 96 | 87 | 79 | | 78 | 67 | | | |
| 43 | 128 | 103 | 97 | 88 | 80 | | 79 | 68 | | | |
| 44 | 129 | 104 | 97 | 88 | 81 | | 80 | 69 | | | |
| 45 | 130 | 104 | 98 | 89 | 82 | | 81 | 69 | | | |
| 46 | 131 | 105 | 99 | 89 | 82 | 66 | 82 | 70 | | | |
| 47 | 132 | 105 | 99 | 90 | 83 | 66 | 83 | 71 | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 48 | 133 | 106 | 100 | 90 | 84 | 67 | 84 | 72 | | | |
| 49 | 133 | 106 | 100 | 91 | 85 | 68 | 85 | 73 | | | |
| 50 | 134 | 107 | 101 | 92 | 86 | 69 | 86 | 73 | | | |
| 51 | 135 | 108 | 101 | 92 | 86 | 70 | 87 | 74 | | | |
| 52 | 136 | 108 | 102 | 93 | 87 | 71 | 88 | 75 | | | |
| 53 | 137 | 109 | 103 | 93 | 88 | 72 | 89 | 76 | | | |
| 54 | 138 | 109 | 103 | 94 | 89 | 73 | 90 | 77 | 66 | | |
| 55 | 139 | 110 | 104 | 94 | 90 | 74 | 90 | 77 | 67 | | |
| 56 | 140 | 110 | 104 | 95 | 90 | 75 | 91 | 78 | 68 | | |
| 57 | 141 | 111 | 105 | 96 | 91 | 76 | 92 | 79 | 68 | | |
| 58 | 141 | 112 | 105 | 96 | 92 | 77 | 93 | 80 | 69 | | |
| 59 | 142 | 112 | 106 | 97 | 93 | 78 | 94 | 81 | 70 | | |
| 60 | 143 | 113 | 107 | 97 | 94 | 79 | 95 | 82 | 71 | | |
| 61 | 144 | 113 | 107 | 98 | 94 | 80 | 96 | 82 | 72 | | |
| 62 | 145 | 114 | 108 | 99 | 95 | 81 | 97 | 83 | 73 | | |
| 63 | | 114 | 108 | 99 | 96 | 82 | 98 | 84 | 74 | | |
| 64 | | 115 | 109 | 100 | 97 | 83 | 99 | 85 | 75 | | |
| 65 | | 116 | 109 | 100 | 98 | 84 | 100 | 86 | 76 | | |
| 66 | | 116 | 110 | 101 | 98 | 85 | 101 | 86 | 77 | | |
| 67 | | 117 | 111 | 101 | 99 | 86 | 102 | 87 | 78 | | |
| 68 | | 117 | 111 | 102 | 100 | 87 | 103 | 88 | 78 | | |
| 69 | | 118 | 112 | 103 | 101 | 88 | 104 | 89 | 79 | | |
| 70 | | 119 | 112 | 103 | 102 | 89 | 104 | 90 | 80 | | |
| 71 | | 119 | 113 | 104 | 102 | 90 | 105 | 90 | 81 | | |
| 72 | | 120 | 113 | 104 | 103 | 91 | 106 | 91 | 82 | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 73 | | 120 | 114 | 105 | 104 | 92 | 107 | 92 | 83 | | |
| 74 | | 121 | 115 | 105 | 105 | 93 | 108 | 93 | 84 | | |
| 75 | | 121 | 115 | 106 | 105 | 94 | 109 | 94 | 85 | | |
| 76 | | 122 | 116 | 107 | 106 | 95 | 110 | 94 | 86 | | |
| 77 | | 123 | 116 | 107 | 107 | 95 | 111 | 95 | 87 | | |
| 78 | | 123 | 117 | 108 | 108 | 96 | 112 | 96 | 87 | | |
| 79 | | 124 | 117 | 108 | 109 | 97 | 113 | 97 | 88 | | |
| 80 | | 124 | 118 | 109 | 109 | 98 | 114 | 98 | 89 | | |
| 81 | | 125 | 119 | 109 | 110 | 99 | 115 | 98 | 90 | | |
| 82 | | 125 | 119 | 110 | 111 | 100 | 116 | 99 | 91 | | |
| 83 | | 126 | 120 | 111 | 112 | 101 | 117 | 100 | 92 | | |
| 84 | | 127 | 120 | 111 | 113 | 102 | 118 | 101 | 93 | | |
| 85 | | 127 | 121 | 112 | 113 | 103 | 119 | 102 | 94 | | |
| 86 | | 128 | 121 | 112 | 114 | 104 | 119 | 102 | 95 | | |
| 87 | | 128 | 122 | 113 | 115 | 105 | 120 | 103 | 96 | | |
| 88 | | 129 | 123 | 113 | 116 | 106 | 121 | 104 | 97 | | |
| 89 | | 129 | 123 | 114 | 117 | 107 | 122 | 105 | 97 | | |
| 90 | | 130 | 124 | 115 | 117 | 108 | 123 | 106 | 98 | | |
| 91 | | 131 | 124 | 115 | 118 | 109 | 124 | 106 | 99 | 70 | 68 |
| 92 | | 131 | 125 | 116 | 119 | 110 | 125 | 107 | 100 | 75 | 73 |
| 93 | | 132 | 125 | 116 | 120 | 111 | 126 | 108 | 101 | 81 | 78 |
| 94 | | 132 | 126 | 117 | 121 | 112 | 127 | 109 | 102 | 86 | 84 |
| 95 | | 133 | 127 | 117 | 121 | 113 | 128 | 110 | 103 | 92 | 89 |
| 96 | | 133 | 127 | 118 | 122 | 114 | 129 | 111 | 104 | 97 | 94 |
| 97 | | 134 | 128 | 119 | 123 | 115 | 130 | 111 | 105 | 103 | 99 |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 98 | | 135 | 128 | 119 | 124 | 116 | 131 | 112 | 106 | 108 | 104 |
| 99 | | 135 | 129 | 120 | 125 | 117 | 132 | 113 | 107 | 114 | 110 |
| 100 | | 136 | 129 | 120 | 125 | 118 | 133 | 114 | 107 | 119 | 115 |
| 101 | | 136 | 130 | 121 | 126 | 119 | 134 | 115 | 108 | 125 | 120 |
| 102 | | 137 | 131 | 122 | 127 | 120 | 134 | 115 | 109 | 130 | 125 |
| 103 | | 137 | 131 | 122 | 128 | 121 | 135 | 116 | 110 | 136 | 131 |
| 104 | | 138 | 132 | 123 | 129 | 122 | 136 | 117 | 111 | 141 | 136 |

D.S. Mae llai o amrediad yn nata blynyddoedd 10 ac 11. Oherwydd hynny, nid oes modd gwahaniaethu ar sail blwyddyn ysgol ac oedran.

**Awgrymir bod ymarferwyr yn ystyried unrhyw sgôr safonedig dros 85 yn yr amrediad normal.**

Atodiad 3: Sgorau safonol fesul oedran a blwyddyn ysgol.

| Sgôr | Blwyddyn 1 | | Blwyddyn 2 | | Blwyddyn 3 | | Blwyddyn 4 | | Blwyddyn 5 | | Blwyddyn 6 | | Blwyddyn 7 | | Blwyddyn 8 | | Blwyddyn 9 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 5 | 6 | 6 | 7 | 7 | 8 | 8 | 9 | 9 | 10 | 10 | 11 | 11 | 12 | 12 | 13 | 13 | 14 |
| 0 | 90 | 90 | 78 | 78 | 74 | 68 | 66 | | | | | | | | | | | |
| 1 | 91 | 91 | 79 | 79 | 74 | 69 | 66 | | | | | | | | | | | |
| 2 | 92 | 92 | 79 | 79 | 75 | 69 | 67 | | | | | | | | | | | |
| 3 | 93 | 93 | 80 | 80 | 75 | 70 | 67 | | | | | | | | | | | |
| 4 | 94 | 94 | 81 | 80 | 76 | 70 | 68 | | | | | | | | | | | |
| 5 | 96 | 94 | 81 | 81 | 77 | 71 | 68 | | | | | | | | | | | |
| 6 | 97 | 95 | 82 | 82 | 77 | 71 | 69 | | | | | | | | | | | |
| 7 | 98 | 96 | 83 | 82 | 78 | 72 | 70 | | | | | | | | | | | |
| 8 | 99 | 97 | 83 | 83 | 78 | 72 | 70 | 65 | | | | | | | | | | |
| 9 | 100 | 98 | 84 | 83 | 79 | 73 | 71 | 66 | | | | | | | | | | |
| 10 | 102 | 98 | 85 | 84 | 80 | 74 | 71 | 66 | | | | | | | | | | |
| 11 | 103 | 99 | 85 | 84 | 80 | 74 | 72 | 67 | | | | | | | | | | |
| 12 | 104 | 100 | 86 | 85 | 81 | 75 | 72 | 68 | | | | | | | | | | |
| 13 | 105 | 101 | 87 | 85 | 82 | 75 | 73 | 68 | | | | | | | | | | |
| 14 | 106 | 102 | 87 | 86 | 82 | 76 | 73 | 69 | | | | | | | | | | |
| 15 | 107 | 102 | 88 | 87 | 83 | 76 | 74 | 69 | | | | | | | | | | |
| 16 | 109 | 103 | 89 | 87 | 83 | 77 | 74 | 70 | | | | | | | | | | |
| 17 | 110 | 104 | 89 | 88 | 84 | 77 | 75 | 71 | | | | | | | | | | |
| 18 | 111 | 105 | 90 | 88 | 85 | 78 | 76 | 71 | | | | | | | | | | |
| 19 | 112 | 106 | 91 | 89 | 85 | 79 | 76 | 72 | | | | | | | | | | |
| 20 | 113 | 106 | 91 | 89 | 86 | 79 | 77 | 72 | | | | | | | | | | |
| 21 | 115 | 107 | 92 | 90 | 87 | 80 | 77 | 73 | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 22 | 116 | 108 | 93 | 90 | 87 | 80 | 78 | 74 | | | | | | | | | | |
| 23 | 117 | 109 | 93 | 91 | 88 | 81 | 78 | 74 | 66 | | | | | | | | | |
| 24 | 118 | 110 | 94 | 91 | 88 | 81 | 79 | 75 | 67 | | | | | | | | | |
| 25 | 119 | 110 | 95 | 92 | 89 | 82 | 79 | 75 | 67 | | | | | | | | | |
| 26 | 121 | 111 | 95 | 93 | 90 | 82 | 80 | 76 | 68 | | | | 66 | | | | | |
| 27 | 122 | 112 | 96 | 93 | 90 | 83 | 80 | 77 | 69 | | | | 67 | | | | | |
| 28 | 123 | 113 | 96 | 94 | 91 | 83 | 81 | 77 | 70 | | | | 68 | | | | | |
| 29 | 124 | 114 | 97 | 94 | 91 | 84 | 81 | 78 | 71 | | | | 69 | | | | | |
| 30 | 125 | 114 | 98 | 95 | 92 | 85 | 82 | 78 | 72 | | | | 69 | | | | | |
| 31 | 126 | 115 | 98 | 95 | 93 | 85 | 83 | 79 | 73 | | | | 70 | 65 | | | | |
| 32 | 128 | 116 | 99 | 96 | 93 | 86 | 83 | 80 | 74 | 66 | | | 71 | 66 | | | | |
| 33 | 129 | 117 | 100 | 96 | 94 | 86 | 84 | 80 | 75 | 66 | | | 72 | 67 | | | | |
| 34 | 130 | 118 | 100 | 97 | 95 | 87 | 84 | 81 | 76 | 67 | | | 73 | 68 | | | | |
| 35 | 131 | 118 | 101 | 97 | 95 | 87 | 85 | 81 | 77 | 68 | | | 74 | 69 | | | | |
| 36 | 132 | 119 | 102 | 98 | 96 | 88 | 85 | 82 | 77 | 69 | | | 75 | 70 | | | | |
| 37 | 134 | 120 | 102 | 99 | 96 | 88 | 86 | 83 | 78 | 70 | | | 76 | 71 | | | | |
| 38 | 135 | 121 | 103 | 99 | 97 | 89 | 86 | 83 | 79 | 70 | | | 77 | 72 | | | | |
| 39 | 136 | 122 | 104 | 100 | 98 | 90 | 87 | 84 | 80 | 71 | | | 78 | 73 | | 65 | | |
| 40 | 137 | 123 | 104 | 100 | 98 | 90 | 87 | 84 | 81 | 72 | | | 79 | 74 | 65 | 66 | | |
| 41 | 138 | 123 | 105 | 101 | 99 | 91 | 88 | 85 | 82 | 73 | | 65 | 80 | 75 | 66 | 67 | | |
| 42 | 140 | 124 | 106 | 101 | 99 | 91 | 89 | 86 | 83 | 74 | | 66 | 80 | 76 | 67 | 67 | | |
| 43 | 141 | 125 | 106 | 102 | 100 | 92 | 89 | 86 | 84 | 74 | | 67 | 81 | 77 | 68 | 68 | | |
| 44 | 142 | 126 | 107 | 102 | 101 | 92 | 90 | 87 | 85 | 75 | | 68 | 82 | 78 | 68 | 69 | | |
| 45 | 143 | 127 | 108 | 103 | 101 | 93 | 90 | 87 | 86 | 76 | | 69 | 83 | 79 | 69 | 70 | | |
| 46 | 144 | 127 | 108 | 103 | 102 | 93 | 91 | 88 | 87 | 77 | | 70 | 84 | 80 | 70 | 71 | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 47 | | 128 | 109 | 104 | 103 | 94 | 91 | 89 | 87 | 78 | | 71 | 85 | 81 | 71 | 71 | | |
| 48 | | 129 | 110 | 105 | 103 | 94 | 92 | 89 | 88 | 78 | | 71 | 86 | 82 | 72 | 72 | 66 | |
| 49 | | 130 | 110 | 105 | 104 | 95 | 92 | 90 | 89 | 79 | | 72 | 87 | 83 | 73 | 73 | 66 | |
| 50 | | 131 | 111 | 106 | 104 | 96 | 93 | 90 | 90 | 80 | | 73 | 88 | 84 | 73 | 74 | 67 | |
| 51 | | 131 | 112 | 106 | 105 | 96 | 93 | 91 | 91 | 81 | | 74 | 89 | 84 | 74 | 75 | 68 | |
| 52 | | 132 | 112 | 107 | 106 | 97 | 94 | 92 | 92 | 82 | 66 | 75 | 90 | 85 | 75 | 75 | 69 | |
| 53 | | 133 | 113 | 107 | 106 | 97 | 94 | 92 | 93 | 82 | 67 | 76 | 91 | 86 | 76 | 76 | 70 | |
| 54 | | 134 | 114 | 108 | 107 | 98 | 95 | 93 | 94 | 83 | 68 | 77 | 91 | 87 | 77 | 77 | 70 | |
| 55 | | 135 | 114 | 108 | 108 | 98 | 96 | 93 | 95 | 84 | 69 | 78 | 92 | 88 | 77 | 78 | 71 | |
| 56 | | 135 | 115 | 109 | 108 | 99 | 96 | 94 | 96 | 85 | 70 | 79 | 93 | 89 | 78 | 79 | 72 | |
| 57 | | 136 | 116 | 110 | 109 | 99 | 97 | 95 | 97 | 86 | 71 | 79 | 94 | 90 | 79 | 79 | 73 | |
| 58 | | 137 | 116 | 110 | 109 | 100 | 97 | 95 | 97 | 86 | 72 | 80 | 95 | 91 | 80 | 80 | 74 | |
| 59 | | 138 | 117 | 111 | 110 | 100 | 98 | 96 | 98 | 87 | 73 | 81 | 96 | 92 | 81 | 81 | 75 | 65 |
| 60 | | 139 | 118 | 111 | 111 | 101 | 98 | 97 | 99 | 88 | 74 | 82 | 97 | 93 | 81 | 82 | 75 | 66 |
| 61 | | 139 | 118 | 112 | 111 | 102 | 99 | 97 | 100 | 89 | 75 | 83 | 98 | 94 | 82 | 83 | 76 | 67 |
| 62 | | 140 | 119 | 112 | 112 | 102 | 99 | 98 | 101 | 90 | 77 | 84 | 99 | 95 | 83 | 83 | 77 | 68 |
| 63 | | 141 | 120 | 113 | 112 | 103 | 100 | 98 | 102 | 90 | 78 | 85 | 100 | 96 | 84 | 84 | 78 | 69 |
| 64 | | 142 | 120 | 113 | 113 | 103 | 100 | 99 | 103 | 91 | 79 | 86 | 101 | 97 | 85 | 85 | 79 | 70 |
| 65 | | 143 | 121 | 114 | 114 | 104 | 101 | 100 | 104 | 92 | 80 | 87 | 102 | 98 | 85 | 86 | 80 | 71 |
| 66 | | 143 | 122 | 114 | 114 | 104 | 102 | 100 | 105 | 93 | 81 | 87 | 102 | 99 | 86 | 87 | 80 | 72 |
| 67 | | 144 | 122 | 115 | 115 | 105 | 102 | 101 | 106 | 94 | 82 | 88 | 103 | 100 | 87 | 87 | 81 | 73 |
| 68 | | | 123 | 116 | 116 | 105 | 103 | 101 | 107 | 95 | 83 | 89 | 104 | 101 | 88 | 88 | 82 | 74 |
| 69 | | | 123 | 116 | 116 | 106 | 103 | 102 | 107 | 95 | 84 | 90 | 105 | 102 | 89 | 89 | 83 | 75 |
| 70 | | | 124 | 117 | 117 | 107 | 104 | 103 | 108 | 96 | 85 | 91 | 106 | 103 | 89 | 90 | 84 | 76 |
| 71 | | | 125 | 117 | 117 | 107 | 104 | 103 | 109 | 97 | 86 | 92 | 107 | 104 | 90 | 91 | 84 | 77 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 72 | | | 125 | 118 | 118 | 108 | 105 | 104 | 110 | 98 | 87 | 93 | 108 | 105 | 91 | 91 | 85 | 78 |
| 73 | | | 126 | 118 | 119 | 108 | 105 | 104 | 111 | 99 | 88 | 94 | 109 | 106 | 92 | 92 | 86 | 79 |
| 74 | | | 127 | 119 | 119 | 109 | 106 | 105 | 112 | 99 | 90 | 95 | 110 | 107 | 93 | 93 | 87 | 80 |
| 75 | | | 127 | 119 | 120 | 109 | 106 | 106 | 113 | 100 | 91 | 95 | 111 | 108 | 93 | 94 | 88 | 81 |
| 76 | | | 128 | 120 | 121 | 110 | 107 | 106 | 114 | 101 | 92 | 96 | 112 | 109 | 94 | 95 | 89 | 82 |
| 77 | | | 129 | 120 | 121 | 110 | 108 | 107 | 115 | 102 | 93 | 97 | 112 | 110 | 95 | 95 | 89 | 83 |
| 78 | | | 129 | 121 | 122 | 111 | 108 | 107 | 116 | 103 | 94 | 98 | 113 | 110 | 96 | 96 | 90 | 84 |
| 79 | | | 130 | 122 | 122 | 111 | 109 | 108 | 117 | 103 | 95 | 99 | 114 | 111 | 97 | 97 | 91 | 85 |
| 80 | | | 131 | 122 | 123 | 112 | 109 | 109 | 117 | 104 | 96 | 100 | 115 | 112 | 97 | 98 | 92 | 86 |
| 81 | | | 131 | 123 | 124 | 113 | 110 | 109 | 118 | 105 | 97 | 101 | 116 | 113 | 98 | 99 | 93 | 87 |
| 82 | | | 132 | 123 | 124 | 113 | 110 | 110 | 119 | 106 | 98 | 102 | 117 | 114 | 99 | 99 | 94 | 88 |
| 83 | | | 133 | 124 | 125 | 114 | 111 | 110 | 120 | 107 | 99 | 103 | 118 | 115 | 100 | 100 | 94 | 89 |
| 84 | | | 133 | 124 | 125 | 114 | 111 | 111 | 121 | 107 | 100 | 104 | 119 | 116 | 101 | 101 | 95 | 90 |
| 85 | | | 134 | 125 | 126 | 115 | 112 | 112 | 122 | 108 | 101 | 104 | 120 | 117 | 101 | 102 | 96 | 91 |
| 86 | | | 135 | 125 | 127 | 115 | 112 | 112 | 123 | 109 | 103 | 105 | 121 | 118 | 102 | 103 | 97 | 92 |
| 87 | | | 135 | 126 | 127 | 116 | 113 | 113 | 124 | 110 | 104 | 106 | 122 | 119 | 103 | 103 | 98 | 93 |
| 88 | | | 136 | 127 | 128 | 116 | 113 | 113 | 125 | 111 | 105 | 107 | 123 | 120 | 104 | 104 | 99 | 94 |
| 89 | | | 137 | 127 | 129 | 117 | 114 | 114 | 126 | 111 | 106 | 108 | 123 | 121 | 105 | 105 | 99 | 95 |
| 90 | | | 137 | 128 | 129 | 118 | 115 | 115 | 127 | 112 | 107 | 109 | 124 | 122 | 105 | 106 | 100 | 96 |
| 91 | | | 138 | 128 | 130 | 118 | 115 | 115 | 127 | 113 | 108 | 110 | 125 | 123 | 106 | 107 | 101 | 97 |
| 92 | | | 139 | 129 | 130 | 119 | 116 | 116 | 128 | 114 | 109 | 111 | 126 | 124 | 107 | 107 | 102 | 98 |
| 93 | | | 139 | 129 | 131 | 119 | 116 | 116 | 129 | 115 | 110 | 112 | 127 | 125 | 108 | 108 | 103 | 99 |
| 94 | | | 140 | 130 | 132 | 120 | 117 | 117 | 130 | 115 | 111 | 112 | 128 | 126 | 109 | 109 | 103 | 100 |
| 95 | | | 141 | 130 | 132 | 120 | 117 | 118 | 131 | 116 | 112 | 113 | 129 | 127 | 110 | 110 | 104 | 101 |
| 96 | | | 141 | 131 | 133 | 121 | 118 | 118 | 132 | 117 | 113 | 114 | 130 | 128 | 110 | 111 | 105 | 102 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 97 | | | 142 | 131 | 134 | 121 | 118 | 119 | 133 | 118 | 114 | 115 | 131 | 129 | 111 | 111 | 106 | 103 |
| 98 | | | 143 | 132 | 134 | 122 | 119 | 119 | 134 | 119 | 116 | 116 | 132 | 130 | 112 | 112 | 107 | 104 |
| 99 | | | 143 | 133 | 135 | 122 | 119 | 120 | 135 | 119 | 117 | 117 | 133 | 131 | 113 | 113 | 108 | 105 |
| 100 | | | 144 | 133 | 135 | 123 | 120 | 121 | 136 | 120 | 118 | 118 | 134 | 132 | 114 | 114 | 108 | 106 |
| 101 | | | 145 | 134 | 136 | 124 | 121 | 121 | 136 | 121 | 119 | 119 | 134 | 133 | 114 | 115 | 109 | 107 |
| 102 | | | | 134 | 137 | 124 | 121 | 122 | 137 | 122 | 120 | 120 | 135 | 134 | 115 | 115 | 110 | 108 |
| 103 | | | | 135 | 137 | 125 | 122 | 122 | 138 | 123 | 121 | 120 | 136 | 135 | 116 | 116 | 111 | 109 |
| 104 | | | | 135 | 138 | 125 | 122 | 123 | 139 | 124 | 122 | 121 | 137 | 136 | 117 | 117 | 112 | 110 |

Atodiad 4: Sgorau safonedig fesul blwyddyn ysgol ac iaith yr aelwyd.

| Sgôr | Blwyddyn 1 | | Blwyddyn 2 | | Blwyddyn 3 | | Blwyddyn 4 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymraeg | Arall | Cymraeg | Arall | Cymraeg | Arall | Cymraeg | Arall |
| 0 | 73 | 90 | | 79 | | 72 | | 68 |
| 1 | 74 | 92 | | 80 | | 73 | | 68 |
| 2 | 74 | 93 | | 81 | | 73 | | 69 |
| 3 | 75 | 94 | | 81 | | 74 | | 69 |
| 4 | 76 | 95 | | 82 | | 75 | | 70 |
| 5 | 76 | 97 | | 82 | | 75 | | 70 |
| 6 | 77 | 98 | | 83 | | 76 | | 71 |
| 7 | 77 | 99 | | 84 | | 77 | | 72 |
| 8 | 78 | 101 | | 84 | | 77 | | 72 |
| 9 | 79 | 102 | | 85 | | 78 | | 73 |
| 10 | 79 | 103 | | 85 | | 79 | | 73 |
| 11 | 80 | 105 | | 86 | | 80 | | 74 |
| 12 | 80 | 106 | | 87 | | 80 | | 74 |
| 13 | 81 | 107 | | 87 | | 81 | | 75 |
| 14 | 82 | 108 | | 88 | | 82 | | 75 |
| 15 | 82 | 110 | | 88 | | 82 | | 76 |
| 16 | 83 | 111 | | 89 | | 83 | | 77 |
| 17 | 83 | 112 | | 90 | | 84 | | 77 |
| 18 | 84 | 114 | | 90 | | 84 | | 78 |
| 19 | 85 | 115 | | 91 | | 85 | | 78 |
| 20 | 85 | 116 | | 91 | | 86 | | 79 |
| 21 | 86 | 118 | | 92 | | 86 | | 79 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 22 | 86 | 119 | | 92 | | 87 | | 80 |
| 23 | 87 | 120 | | 93 | | 88 | | 80 |
| 24 | 88 | 121 | | 94 | | 88 | | 81 |
| 25 | 88 | 123 | 65 | 94 | | 89 | | 82 |
| 26 | 89 | 124 | 66 | 95 | | 90 | | 82 |
| 27 | 89 | 125 | 67 | 95 | | 90 | | 83 |
| 28 | 90 | 127 | 68 | 96 | | 91 | | 83 |
| 29 | 91 | 128 | 69 | 97 | | 92 | | 84 |
| 30 | 91 | 129 | 70 | 97 | | 92 | | 84 |
| 31 | 92 | 131 | 70 | 98 | | 93 | 65 | 85 |
| 32 | 93 | 132 | 71 | 98 | | 94 | 66 | 85 |
| 33 | 93 | 133 | 72 | 99 | | 94 | 67 | 86 |
| 34 | 94 | 134 | 73 | 100 | | 95 | 68 | 87 |
| 35 | 94 | 136 | 74 | 100 | | 96 | 68 | 87 |
| 36 | 95 | 137 | 75 | 101 | | 96 | 69 | 88 |
| 37 | 96 | 138 | 76 | 101 | | 97 | 70 | 88 |
| 38 | 96 | 140 | 77 | 102 | | 98 | 71 | 89 |
| 39 | 97 | 141 | 77 | 103 | | 98 | 71 | 89 |
| 40 | 97 | 142 | 78 | 103 | | 99 | 72 | 90 |
| 41 | 98 | 144 | 79 | 104 | | 100 | 73 | 90 |
| 42 | 99 | 145 | 80 | 104 | | 100 | 74 | 91 |
| 43 | 99 | | 81 | 105 | | 101 | 74 | 91 |
| 44 | 100 | | 82 | 106 | | 102 | 75 | 92 |
| 45 | 100 | | 83 | 106 | | 102 | 76 | 93 |
| 46 | 101 | | 84 | 107 | | 103 | 77 | 93 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 47 | 102 | | 84 | 107 | | 104 | 78 | 94 |
| 48 | 102 | | 85 | 108 | | 104 | 78 | 94 |
| 49 | 103 | | 86 | 109 | | 105 | 79 | 95 |
| 50 | 103 | | 87 | 109 | | 106 | 80 | 95 |
| 51 | 104 | | 88 | 110 | 66 | 106 | 81 | 96 |
| 52 | 105 | | 89 | 110 | 67 | 107 | 81 | 96 |
| 53 | 105 | | 90 | 111 | 68 | 108 | 82 | 97 |
| 54 | 106 | | 91 | 111 | 69 | 108 | 83 | 98 |
| 55 | 106 | | 91 | 112 | 70 | 109 | 84 | 98 |
| 56 | 107 | | 92 | 113 | 71 | 110 | 84 | 99 |
| 57 | 108 | | 93 | 113 | 72 | 110 | 85 | 99 |
| 58 | 108 | | 94 | 114 | 73 | 111 | 86 | 100 |
| 59 | 109 | | 95 | 114 | 74 | 112 | 87 | 100 |
| 60 | 109 | | 96 | 115 | 75 | 112 | 88 | 101 |
| 61 | 110 | | 97 | 116 | 77 | 113 | 88 | 101 |
| 62 | 111 | | 98 | 116 | 78 | 114 | 89 | 102 |
| 63 | 111 | | 98 | 117 | 79 | 114 | 90 | 103 |
| 64 | 112 | | 99 | 117 | 80 | 115 | 91 | 103 |
| 65 | 112 | | 100 | 118 | 81 | 116 | 91 | 104 |
| 66 | 113 | | 101 | 119 | 82 | 116 | 92 | 104 |
| 67 | 114 | | 102 | 119 | 83 | 117 | 93 | 105 |
| 68 | 114 | | 103 | 120 | 84 | 118 | 94 | 105 |
| 69 | 115 | | 104 | 120 | 85 | 118 | 94 | 106 |
| 70 | 115 | | 105 | 121 | 86 | 119 | 95 | 106 |
| 71 | 116 | | 105 | 122 | 87 | 120 | 96 | 107 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 72 | 117 | | 106 | 122 | 88 | 120 | 97 | 108 |
| 73 | 117 | | 107 | 123 | 89 | 121 | 98 | 108 |
| 74 | 118 | | 108 | 123 | 90 | 122 | 98 | 109 |
| 75 | 118 | | 109 | 124 | 91 | 122 | 99 | 109 |
| 76 | 119 | | 110 | 125 | 92 | 123 | 100 | 110 |
| 77 | 120 | | 111 | 125 | 93 | 124 | 101 | 110 |
| 78 | 120 | | 112 | 126 | 94 | 124 | 101 | 111 |
| 79 | 121 | | 112 | 126 | 95 | 125 | 102 | 111 |
| 80 | 121 | | 113 | 127 | 96 | 126 | 103 | 112 |
| 81 | 122 | | 114 | 128 | 97 | 126 | 104 | 112 |
| 82 | 123 | | 115 | 128 | 99 | 127 | 104 | 113 |
| 83 | 123 | | 116 | 129 | 100 | 128 | 105 | 114 |
| 84 | 124 | | 117 | 129 | 101 | 128 | 106 | 114 |
| 85 | 124 | | 118 | 130 | 102 | 129 | 107 | 115 |
| 86 | 125 | | 118 | 131 | 103 | 130 | 108 | 115 |
| 87 | 126 | | 119 | 131 | 104 | 130 | 108 | 116 |
| 88 | 126 | | 120 | 132 | 105 | 131 | 109 | 116 |
| 89 | 127 | | 121 | 132 | 106 | 132 | 110 | 117 |
| 90 | 127 | | 122 | 133 | 107 | 132 | 111 | 117 |
| 91 | 128 | | 123 | 133 | 108 | 133 | 111 | 118 |
| 92 | 129 | | 124 | 134 | 109 | 134 | 112 | 119 |
| 93 | 129 | | 125 | 135 | 110 | 134 | 113 | 119 |
| 94 | 130 | | 125 | 135 | 111 | 135 | 114 | 120 |
| 95 | 131 | | 126 | 136 | 112 | 136 | 114 | 120 |
| 96 | 131 | | 127 | 136 | 113 | 136 | 115 | 121 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 97 | 132 | | 128 | 137 | 114 | 137 | 116 | 121 |
| 98 | 132 | | 129 | 138 | 115 | 138 | 117 | 122 |
| 99 | 133 | | 130 | 138 | 116 | 138 | 118 | 122 |
| 100 | 134 | | 131 | 139 | 117 | 139 | 118 | 123 |
| 101 | 134 | | 132 | 139 | 118 | 140 | 119 | 124 |
| 102 | 135 | | 132 | 140 | 119 | 140 | 120 | 124 |
| 103 | 135 | | 133 | 141 | 121 | 141 | 121 | 125 |
| 104 | 136 | | 134 | 141 | 122 | 142 | 121 | 125 |

**Ffurflen A**

1. Dyma afal.
2. Mae lemon yn felyn.
3. Mae hi’n hoffi moron.
4. Does dim cathod yn y sw.
5. Sali sy’n byw yn y tŷ mawr.
6. Torrwch y papur gyda siswrn.
7. Pan fydd y tywydd yn braf, bydd hi’n amser chwarae.
8. Dyma’r plant sydd wedi gwylio’r teledu.
9. Coch ydy lliw’r paent sydd ei angen i addurno’r ystafell ddosbarth.
10. Pan ddaeth yr actores enwog i’r ysgol, roedd pawb yn gwenu o glust i glust drwy’r dydd.

11. Pe na bai'r arbenigwr dawnus wedi sylwi bod brech yr ieir ar sawl un ohonyn nhw, byddai'r sefyllfa wedi gwaethygu.

12. Teimlad pleserus oedd hiraethu am ei phlentyndod yng Nghaerffili a chafodd ei hatgoffa o'r holl gyfnodau hapus.

13. Brasgamodd y cyflwynydd teledu yn fwriadus tuag at ei gerbyd er mwyn gadael mewn da bryd.

14. Daeth tîm rhyngwladol o ymchwilwyr i'r casgliad amlwg fod canfyddiadau'r gwaith yn annealladwy.

15. Lluniwyd y cyfryngau cymdeithasol gan fyfyrwyr llewyrchus a feithrinodd eu sgiliau dros nifer o flynyddoedd.

16. Fe arbrofodd gwyddonwyr â gwahanol ddulliau o atal ergydion difrifol i'r pen yn ystod gemau rygbi.

17. Dywedir mai gorfodi chwaraewyr i wisgo penwisg amddiffynnol wrth chwarae a fyddai'n lleihau'r peryglon yn sylweddol.

**Ffurflen B**

1. Dyna oren.

2. Mae Cyw yn fach.

3. Mae hi’n blasu bwyd.

4. Does dim pysgod yn y môr.

5. Magi sy’n gwisgo crys gwyrdd.

6. Eisteddwch ar y mat gyda llyfr.

7. Pan fydd y gwanwyn yn dod, byddwn ni ar wyliau.

8. Dyma’r plant sydd wedi ennill y rygbi heddiw.

9. Blasus iawn ydy’r bwyd sy’n cael ei goginio yn y caffi moethus.

10. Pan welodd y gantores ddisglair y gynulleidfa fawr, roedd hi wrth ei bodd drwy’r nos.

11. Pe ysgrifennem ni lythyr parchus at y cyfarwyddwr, byddai'n rhoi'r cyfle inni fod yn rhan o'r gynulleidfa.

12. Teithiau mewn hofrennydd oedd yn denu twristiaid anturus i Langollen ond cawson nhw eu canslo.

13. Gwrandawodd y nyrs yn amyneddgar wrth i'r claf esbonio sut yr anafodd ei goes.

14. Daeth yn fwyfwy amlwg ar ôl y refferendwm y byddai codi trethi'n annerbyniol ac yn dangos esgeulustod.

15. Cynhaliwyd sesiynau byw dros blatfform Instagram, sy'n ffordd arloesol o ddarlledu diweddariadau am eich bywyd.

16. Fe sbardunodd newidiadau trawiadol i hinsawdd y ddaear yn y blynyddoedd diwethaf orymdeithiau brwd.

17. Dylid ailystyried ein harferion er mwyn lleihau effaith llygredd ynghyd â newid i ddulliau gwyrddion o gynhyrchu egni.

# Taflen Cofnodi Canlyniadau (Unigolion)

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | |
| **Blwyddyn** | |
| **Enw'r Ymarferwr** | |
| **Enw'r Disgbyl** | |
| **Iaith (neu ieithoedd) ar yr aelwyd**<br>• Cymraeg (C)<br>• Saesneg (S)<br>• Cymraeg a Saesneg (CS)<br>• Arall (A) | |
| **Rhywedd**<br>• Merch (M)<br>• Bachgen (B)<br>• Arall (A)<br>• Ni roddwyd yr wybodaeth (NA) | |
| **Dyddiad geni** | |
| **Dyddiad prawf 1** | |
| **Sgôr Ffurflen A** | |
| **Dyddiad prawf 2** | |
| **Sgôr Ffurflen B** | |

| **Ffurflen A** | **Sgôr (Rhif y gair a asesir** *D.S. Geiriau mewn print trwm a asesir*) |
|---|---|
| **1. Dyma afal.** | 1 / 2 |
| **2. Mae lemon yn felyn.** | 3 / 4 / 5 / 6 |
| 3. Mae **hi**’n **hoffi moron**. | 7 / 8 / 9 |
| **4. Does dim cathod** yn **y sw.** | 10 / 11 / 12 / 13 / 14 |
| 5. Sali **sy**’n **byw** yn y **tŷ mawr**. | 15 / 16 / 17 / 18 |
| 6. **Torrwch** y **papur gyda siswrn**. | 19 / 20 / 21 / 22 |
| 7. **Pan fydd** y **tywydd** yn **braf**, **bydd** hi’n **amser chwarae**. | 23 / 24 / 25 / 26 / 27 / 28 / 29 |
| 8. **Dyma’r plant sydd wedi gwylio**’r **teledu** | 30* / 31 / 32 / 33 / 34 / 35<br><br>* Dyma’r = un gair |
| 9. **Coch ydy lliw**’r **paent** sydd **ei angen** i **addurno**’r **ystafell ddosbarth**. | 36 / 37 / 38 / 39 / 40 / 41 / 42 / 43 / 44 |
| 10. Pan **ddaeth** yr **actores enwog** i’r ysgol, **roedd** pawb yn **gwenu** o **glust** i glust **drwy**’r **dydd**. | 45 / 46 / 47 / 48 / 49 / 50 / 51 / 52 |
| 11. **Pe** na bai’r **arbenigwr dawnus** wedi **sylwi** bod **brech yr ieir** ar **sawl** un **ohonyn** nhw, byddai’r **sefyllfa** wedi **gwaethygu.** | 53 / 54 / 55 / 56 / 57* / 58 / 59 / 60 / 61<br><br>*Brech yr ieir = un gair |
| 12. **Teimlad pleserus** oedd **hiraethu** am ei **phlentyndod** yng **Nghaerffili** a **chafodd** ei **hatgoffa** o’r holl **gyfnodau** hapus. | 62 / 63 / 64 / 65 / 66 / 67 / 68 / 69 |
| 13. **Brasgamodd** y **cyflwynydd teledu** yn **fwriadus** tuag at ei **gerbyd** er mwyn **gadael** mewn da **bryd**. | 70 / 71 / 72 / 73 / 74 / 75 / 76 |

| | |
|---|---|
| 14. Daeth tîm **rhyngwladol** o **ymchwilwyr** i'r **casgliad amlwg** fod **canfyddiadau**'r gwaith yn **annealladwy**. | 77 / 78 / 79 / 80 / 81 / 82 |
| 15. **Lluniwyd** y **cyfryngau cymdeithasol** gan **fyfyrwyr llewyrchus** a **feithrinodd** eu **sgiliau** dros nifer o **flynyddoedd**. | 83 / 84 / 85 / 86 / 87 / 88 / 89 / 90 |
| 16. Fe **arbrofodd gwyddonwyr** â **gwahanol ddulliau** o atal **ergydion difrifol** i'r pen yn ystod gemau rygbi. | 90 / 91 / 92 / 93 / 94 / 95 / 96 |
| 17. **Dywedir** mai **gorfodi chwaraewyr** i wisgo **penwisg amddiffynnol** wrth chwarae a fyddai'n **lleihau**'r **peryglon** yn **sylweddol**. | 97 / 98 / 99 / 100 / 101 / 102 / 103 / 104 |
| **Sgôr** | |

| **Ffurflen B** | **Sgôr (Rhif y gair a asesir**<br>*D.S. Geiriau mewn print trwm a asesir*) |
|---|---|
| 1. **Dyna oren.** | 1 / 2 |
| 2. **Mae Cyw yn fach.** | 3 / 4 / 5 / 6 |
| 3. Mae **hi**'n **blasu bwyd.** | 7 / 8 / 9 |
| 4. **Does dim pysgod** yn **y môr**. | 10 / 11 / 12 / 13 / 14 |
| 5. Magi **sy**'n **gwisgo crys gwyrdd.** | 15 / 16 / 17 / 18 |
| 6. **Eisteddwch** ar y **mat gyda llyfr**. | 19 / 20 / 21 / 22 |
| 7. **Pan fydd** y **gwanwyn** yn **dod**, **byddwn** ni ar **wyliau**. | 23 / 24 / 25 / 26 / 27 / 28 |
| 8. **Dyma'r plant sydd wedi ennill** y **rygbi heddiw**. | 29* / 30 / 31 / 32 / 33 / 34 / 35<br><br>* Dyma'r = un gair |
| 9. **Blasus iawn ydy**'r **bwyd** sy'n **cael ei goginio** yn y **caffi moethus**. | 36 / 37 / 38 / 39 / 40 / 41 / 42 / 43 / 44 |
| 10. Pan **welodd** y **gantores ddisglair** y **gynulleidfa fawr**, **roedd** hi **wrth** ei **bodd drwy**'r **nos**. | 45 / 46 / 47 / 48 / 49 / 50 / 51 / 52 / 53 / 54 |
| 11. **Pe ysgrifennem** ni **lythyr parchus** at y **cyfarwyddwr**, byddai'n rhoi'r **cyfle** inni fod yn rhan o'r **gynulleidfa.** | 55 / 56 / 57 / 58 / 59 / 60 / 61 |
| 12. **Teithiau** mewn **hofrennydd** oedd yn **denu twristiaid anturus** i **Langollen** ond **cawson** nhw eu **canslo**. | 62 / 63 / 64 / 65 / 66 / 67 / 68 / 69 |
| 13. **Gwrandawodd** y **nyrs** yn **amyneddgar** wrth i'r **claf esbonio** sut yr **anafodd** ei **goes**. | 70 / 71 / 72 / 73 / 74 / 75 / 76 |

| | |
|---|---|
| 14. Daeth yn **fwyfwy amlwg** ar ôl y **refferendwm** y byddai codi **trethi**’n **annerbyniol** ac yn dangos **esgeulustod**. | 77 / 78 / 79 / 80 / 81 / 82 |
| 15. **Cynhaliwyd sesiynau** byw dros **blatfform** Instagram, sy’n **ffordd arloesol** o **ddarlledu diweddariadau** am eich **bywyd**. | 83 / 84 / 85 / 86 / 87 / 88 / 89 / 90 |
| 16. Fe **sbardunodd newidiadau trawiadol** i **hinsawdd** y ddaear yn y **blynyddoedd** diwethaf **orymdeithiau** brwd. | 90 / 91 / 92 / 93 / 94 / 95 / 96 |
| 17. **Dylid ailystyried** ein **harferion** er mwyn **lleihau** effaith **llygredd** ynghyd â newid i **ddulliau gwyrddion** o **gynhyrchu** egni. | 97 / 98 / 99 / 100 / 101 / 102 / 103 / 104 |
| **Sgôr** | |

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

@CSC_Siarter

**Grymuso ysgolion i wella deilliannau i bob dysgwr**

**Empowering schools to improve outcomes for all learners**